WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Will Godfrey
Prif Weithredwr
Cyngor Dinas Casnewydd
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 622A2013 |
| **Dyddiad** | 30 Rhagfyr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **3** |

Annwyl Will

## Asesiad Gwella

Yn fy Adroddiad Asesu Corfforaethol dyddiedig 19 Medi 2013, rhoddais fy marn ar b'un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae hefyd yn ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar b'un a yw Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant yn unol â'r Mesur, er bod lle i gryfhau ei drefniadau ymhellach.**

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur:

- Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adolygiad Diwedd Blwyddyn o'r Cynllun Gwella ar gyfer 2012-13* (yr Adolygiad) cyn 31 Hydref 2013.
- Mae'r Adolygiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi'n glir sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Mae'r Adolygiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn eglur. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwerthusiad hwn wedi'i gymeradwyo drwy'r dull llywodraethu swyddog/Aelod priodol yn y dyfodol.
- Mae'r Adolygiad yn galluogi dinasyddion i roi adborth neu sylwadau ar yr Adolygiad.
- Mae'r Adolygiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Mae'r Adolygiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

Rwyf wedi nodi nifer o feysydd lle gall y Cyngor wella ei Adroddiad ar Berfformiad:

- Nid yw'r holl ddata yn yr Adolygiad wedi'i nodi'n gywir nac yn gyson â'r data a gyflwynwyd gan y Cyngor i Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r data yn yr Adolygiad ar gyfer y Dangosydd Strategol Cenedlaethol WMT/004 yn wahanol i'r ffigur a adroddwyd. Hefyd, nid yw'r holl safleoedd yn yr Adolygiad yn gyson â'r safleoedd a adroddwyd.
  Ar hyn o bryd, mae'r safleoedd ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol EDU/002i a SCC/033b (e) yn wahanol i'r ffigurau a adroddwyd. Codwyd materion ynghylch camddyfynnu dangosyddion yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol, Mawrth 2013.
- Mae'r Adolygiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a nodwyd yng nghynllun gwella 2012-13, perfformiad blwyddyn gyfan ar y casgliad o ddangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â phob Amcan Gwella a pherfformiad ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor ehangu'r amrywiaeth o fesurau sy'n gysylltiedig â rhai Amcanion Gwella. Roedd rhai o werthusiadau'r Cyngor yn gyfyngedig oherwydd casgliad cul o fesurau. Er enghraifft, mae dau fesur i'r amcan i 'sicrhau bod teuluoedd a phobl sy'n agored i niwed yn derbyn yr incwm mwyaf posibl drwy dderbyn y budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt', ac nid oes yr un ohonynt yn mesur nifer y bobl sy'n manteisio ar fudd-daliadau.
- Caiff cynghorau eu hannog i ddefnyddio gwybodaeth o adolygiadau cymheiriaid, asesiadau craffu, data meincnodi a gwybodaeth fwy ansoddol arall fel boddhad cwsmeriaid. Nid yw'r Adolygiad yn cynnwys dadansoddiad mor eang â hyn a gallai gynnwys sail dystiolaeth ehangach er mwyn helpu'r Cyngor i gynnal hunanwerthusiad mwy effeithiol o'i berfformiad a chyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar welliant. Er enghraifft, dywedodd y Cyngor wrthym y gwnaed gwelliannau i'r systemau ar gyfer monitro cwynion, ond nid oes dadansoddiad o gŵynion wedi'i gynnwys yn yr Adolygiad.
- Nid yw'r Adolygiad yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth gymharol, yn cynnwys perfformiad hanesyddol a chymhariaeth ag eraill. Nid yw'r Adolygiad yn cynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus na chymariaethau â chynghorau tebyg eraill, y mae wedi'u cynnwys mewn blynyddoedd blaenorol, a dim ond perfformiad hanesyddol o 2011-12 y mae'n ei gynnwys. Nid oes eglurhad ar gyfer cymariaethau a wneir, beth yw ystyr y rhain na beth sy'n digwydd o ganlyniad. Gwneir dadansoddiadau ehangach eraill o berfformiad cymharol yn y Cyngor felly mae hwn yn gyfle a gollir i rannu'r wybodaeth â chynulleidfa ehangach.
- Nid yw'r Adolygiad yn rhoi gwybodaeth am fuddiannau cydweithredu hyd yma. Dylai hyn gynnwys yr hyn a gyflawnwyd neu p'un a yw canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni. Byddai'r math hwn o wybodaeth yn galluogi'r Cyngor i fesur, gwerthuso ac adrodd yn fwy tryloyw ar y buddiannau gwirioneddol a gyflawnwyd drwy gydweithredu.
- Gallai'r Cyngor wneud mwy i sicrhau bod yr Adolygiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid. Tynnir sylw at yr Adolygiad ar hafan gwefan y Cyngor a rhoddir mwy o fanylion ar dudalennau perfformiad y wefan, lle gellir lawrlwytho'r

Adolygiad llawn. Mae copïau caled ar gael ym mhrif adeiladau'r Cyngor ac mae crynodeb hefyd ar gael. Roedd y fersiwn Cymraeg ar gael ar-lein rai wythnosau ar ôl cyhoeddi'r fersiwn Saesneg. Gallai'r Cyngor wella argaeledd yr adroddiad drwy roi gwybodaeth am sut i ofyn am fformatau amgen a darparu fersiynau Cymraeg o'r Adolygiad pan gaiff ei gyhoeddi.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Rwy'n gwneud rhagor o gynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn ar ben cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennyf yn fy Llythyr Asesu Gwelliant ym mis Rhagfyr 2012. Byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Sicrhau bod datganiadau cyffredinol y Cyngor, a graddfeydd coch, oren a gwyrdd sy'n gwerthuso ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella, yn cael eu cymeradwyo drwy'r dulliau llywodraethu swyddog ac aelod priodol. |
| C2 | Sicrhau bod y data yn yr Adolygiad Diwedd Blwyddyn wedi'i nodi'n gywir ac yn gyson â data a gyflwynwyd. |

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor yn ystod y misoedd nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arno, yn ogystal â chrynhoi'r holl waith a wnaed gennyf a rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14 mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins – Rheolwr

Jackie Joyce - Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad